Erthygl 15 – Adolygu a Diwygio'r Cyfansoddiad

15.01 Dyletswydd i fonitro ac adolygu'r cyfansoddiad

Bydd y swyddog monitro yn monitro ac yn adolygu gweithredu'r Cyfansoddiad i sicrhau y gweithredir nodau ac egwyddorion y Cyfansoddiad yn llawn, ac yn llunio argymhellion ar gyfer newidiadau i sicrhau rhagorach ffordd o wireddu'r pwrpasau a nodir yn Erthygl 1.

Wrth gyflawni'r dasg hon bydd y swyddog monitro yn:

1. arsylwi cyfarfodydd gwahanol rannau'r strwythur aelodau a swyddogion;

2 ymgymryd â llwybr archwilio ar sampl o benderfyniadau;

cofnodi a dadansoddi materion a godwyd gydag ef/hi gan aelodau, swyddogion, y cyhoedd a rhanddeiliaid perthnasol eraill; ac yn

cymharu arferion yn yr Awdurdod hwn â'r rhai hynny mewn Awdurdodau cymharol eraill, neu enghreifftiau cenedlaethol o arfer da.

15.02 NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD

(a) **Cymeradwyaeth**. Ni chymeradwyir newidiadau i'r Cyfansoddiad gan y Cyngor llawn hyd nes bo'r cynnig wedi cael ei ystyried gan y Swyddog Monitro drwy ymgynghori â'r Arweinydd ac arweinwyr y grwpiau gwleidyddol.

(b) **Newid o gyfundrefn arweinydd a chabinet o weithrediaeth i drefniadau eraill, neu fel arall.** Bydd y Cyngor yn cymryd camau rhesymol i ymgynghori â'r etholwyr lleol ac eraill sydd â diddordeb yn yr ardal wrth lunio cynigion i'w hystyried gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.